
Cyngor Ieuenctid Cymru
Wales Youth Agency



# Neges

papurau achlysurol ar bynciau
i weithwragedd/wyr ieuenctid

## Ieuenctid 'Anfodlon': ymchwil gefndirol, cydnabyddiaeth wleidyddol a datblygiad polisi

# Ieuenctid ‘Anfodlon’: ymchwil gefndirol, cydnabyddiaeth wleidyddol a datblygiad polisi

Howard Williamson, Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol, Prifysgol Caerdydd
Gorffennaf 1999
Cyngor Ieuenctid Cymru,
Llys Leslie, Lôn y Llyn, Caerffili CF83 1BQ
Ffôn 029 20 855700  Ffacs 029 20 855701
Mae’r adroddiadau hyn hefyd ar gael ar ein gwe: www.wya.org.uk

# Ieuenctid 'Anfodlon': ymchwil gefndirol, cydnabyddiaeth wleidyddol a datblygiad polisi

Ym mis Mai 1994 dywedodd y cyn Ysgrifennydd Gwladol Cyflogaeth, David Hunt, ar y radio nad oedd ond *144* o bobl ifanc 16 a 17 oed trwy Gymru a Lloegr heb fod mewn addysg, hyfforddiant na swydd. Y diwrnod wedyn, cyfaddefodd cyn Ysgrifennydd Cyflogaeth arall, Norman Fowler, mewn papur newydd fod 76,000 o bobl ifanc 16 a 17 oed efallai wedi llithro trwy'r rhwyd hyfforddiant a budd-daliadau. Roedd yn drobwynt yn y gydnabyddiaeth wleidyddol fod niferoedd sylweddol o bobl ifanc wedi dod yn 'anfodlon', wedi colli cysylltiad a diflannu yn ystod y ddwy flynedd ar ôl gadael yr ysgol. Darfu am y gwadu parhaus nad oedd mwy na dyrnaid o bobl ifanc y tu allan i addysg, hyfforddiant a chyflogaeth; cyfaddefodd y llywodraeth o'r diwedd fod 'anfodlonrwydd' yn her arwyddocaol a hanfodol i bolisi cyhoeddus.

Sut y gellir cysoni'r ddwy ffigwr cwbl wahanol a ddyfynnir uchod? Nid ffuglen oedd haeriad Hunt, eithr roedd yn ddehongliad dethol iawn o'r ystadegau a oedd ar gael. Oddi ar 1988, ni bu pobl ifanc 16 a 17 oed – gydag ond ychydig eithriadau - yn gymwys i dderbyn budd-daliadau nawdd cymdeithasol, ar y sail nad ddylai 'opsiwn' cyflogaeth fod yn agored iddynt. 'Ad-daliad' am dynnu'r hawl honno oedd y warant hyfforddiant ieuenctid: byddai lle yn cael ei warantu ar Gynllun Hyfforddi Ieuenctid i bobl ifanc yn yr ystod oedran hwn nad oeddynt yn dal ymlaen yn y gyfundrefn addysg ac a fethai â chael gwaith o fewn wyth wythnos wedi iddynt ymgyflwyno i'r Gwasanaeth Gyrfaoedd. Yn y cyfamser, byddai rhai mewn amgylchiadau arbennig yn gymwys i dderbyn Lwfansiau Pontio, a Thaliadau Caledi Dygn mewn rhai achosion; byddai ychydig o'u plith (megis mamau ifanc) yn dal i dderbyn Ategiad Incwm. Cynhwysai'r ystadegau swyddogol ar yr ystod oedran hwn, felly, y rheini a dderbyniai'r budd-daliadau hyn a rhai o fewn y 'grwp gwarant hyfforddiant ieuenctid', sef rhai'n disgwyl lle ar gwrs hyfforddi. *Cymerwyd yn ganiataol* fod pob person ifanc arall yn gweithio mewn addysg, hyfforddiant neu swydd. Codwyd ffigwr Hunt o'r lleiafrif bychan hwnnw a oedd yn dal i ddisgwyl lle ar gwrs hyfforddi *ar ôl* y cyfnod aros o wyth wythnos a ganiateid: nifer fach iawn yr oedd y Cynghorau Hyfforddi a Menter wedi cael eu hannog gan y llywodraeth i'w gostwng, ynghyd â memoranda cyfrinachol gan y gwasanaeth gyrfaoedd yn nodi gwahanol feini prawf i'w defnyddio er mwyn tynnu pobl ifanc nad oeddynt mewn addysg, hyfforddiant na swydd o'r grwp gwarant na swydd o'r grwp gwarant hyfforddiant ieuenctid, a hynny'n gyfreithlon.

Mae ffigwr Fowler yn fwy o ddirgelwch, ond fe'i tynnwyd bron yn sicr o ddata'r Sefydliad Llafur Rhyngwladol a ddarparwyd gan yr Uned Ddiweithdra a ystyriai boblogaeth y garfan a thynnu nifer y rheini y cofnodwyd eu bod mewn addysg, hyfforddiant neu swydd. Awgrymai hyn ffigwr llawer mwy na'r rhai a gofrestrwyd yn swyddogol eu bod y tu allan i'r gyfundrefn addysg, hyfforddiant na swydd ac roedd yn weddol gyson â'r haeriadau a wneid ar y pryd gan sefydliadau'n gweithio gyda phobl ifanc yn yr amgylchiadau hyn. Yn wir, tueddai'r amcangyfrifon *hynny* yn nodi ffigwr nes at 100,000, er iddynt gydnabod fod rhyw draean efallai yn derbyn cefnogaeth ariannol gan eu teuluoedd. Roedd y lleill, er hynny, yn amddifad i bob pwrpas – heb gefnogaeth o fath yn y byd. Fodd bynnag, parhaodd y llywodraeth i gynnig y ffigyrau 'diweithdra' swyddogol wedi eu seilio ar gyfrif nifer y rhai sy'n hawlio, gan ychwanegu'r grwp gwarant HI ar gyfer rhai 16/17 oed. (Mae newidiadau diweddar yn y modd y cesglir ffigyrau diweithdra cyffredin, yn sgil 31 o newidiadau oddi ar 1979, a phob un ond un yn *lleihau*'r niferoedd, yn golygu bod ystadegau cyfoes wedi'u seilio ar ddata'r ILO, a dderbynnir bellach fel rhai mwy dibynadwy a llai agored i gael eu camystumio gan wleidyddion.)

Gwnaed y gwaith ymchwil a dynnodd sylw yn gyntaf at fodolaeth 'status zer0' (sef pobl ifanc heb fod mewn addysg hyfforddiant na swydd) yn ystod haf 1993 (Istance et al 1994). Ceisiodd bennu amcangyfrifon meintiol dibynadwy o'r niferoedd mewn 'status zer0' ar unrhyw adeg a thros gyfnod, gan ofalu bod peth goleuni ar gefndir, amgylchiadau, profiadau a dyheadau rhai mewn 'status zer0' trwy gyfrwng cyfweliadau ansoddol. Ar sail un ffynhonnell gwybodaeth (data'r Gwasanaeth Gyrfaoedd) er mwyn osgoi cyfrif dwbl, cymerodd y gwaith yn Ne Morgannwg ddata Cyfeiriad Disgyblion yn sylfaen ac yna, trwy wneud tybiaethau perswadiol (er mai *tybiaethau* oeddynt o hyd) am symudoledd a mor bidrwydd, aeth ymlaen i ddadansoddi'r data ar yrfaoedd, yn enwedig mewn perthynas â data coll. Tybiaethau pellach am y rhai 'coll' a ddaeth maes o law yn wleidyddol ddadleuol. Eto, hyd yn oed heb gorffori'r rhai 'coll', roedd yn eglur bod nifer sylweddol fwy y tu allan i addysg, hyfforddiant a chyflogaeth nag a addefid yn swyddogol. Ychydig a gydnabyddai, er enghraifft, y bobl ifanc hynny a oedd wedi ymgofrestru gyda'r gwasanaeth gyrfaoedd ond a oedd *wedi gwrthod* lle ar gwrs hyfforddi: roeddynt am gael swydd a dim arall. Pan ychwanegwyd rhai a oedd 'ar goll' o'r data am gyfran neu am y cyfan o'r cyfnod o ddwy flynedd ar ôl i'r garfan adael yr ysgol, ar y dybiaeth y câi unrhyw berthynas ag addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth ei chofnodi, tynnodd y dadansoddiad o 'status zer0' sylw at niferoedd sylweddol yn yr amgylchiadau hyn *ar unrhyw adeg* a *thros gyfnod o amser.* Yn wir, awgrymai'r amcangyfrifon rhifol fod rhwng 16% a 23% o'r bobl ifanc 16 a 17 oed yn Ne Morgannwg mewn 'status zer0' ar unrhyw adeg . Ar ben hynny, roedd mwyafrif o'r rhai a fu mewn 'status zer0' wedi bod yn y cyflwr hwnnw am ragor na chwe mis; mewn geiriau eraill, buasai'n brofiad cymharol hir-dymor yn ystod y ddwy flynedd ar ôl gadael yr ysgol.

Am fod pobl ifanc 'status zer0' yn anweledig yn y system trwy ddiffiniad, roedd yn anodd cael hyd iddynt. Fodd bynnag, darganfu'r gwaith ansoddol 'ddryswch o batholegau' a oedd wedi gyrru'r bobl ifanc i status zer0. Roedd y rhan fwyaf wedi profi cyfuniadau gwahanol o waharddiad o'r ysgol, chwalfa deuluol, trawma personol ac aflonyddu cymdeithasol. Nid oedd addysg, hyfforddiant a chyflogaeth yn flaenoriaeth ganddynt, er bod yr angen am 'incwm goroesi' yn daer. O ganlyniad, roedd nifer wedi cael eu tynnu i mewn i weithgarwch economaidd anffurfiol ac anghyfreithlon, gan gymryd rhan fwy bwriadol wedi hynny. I rai, talai hyn yn dda iawn, er ei fod bob amser yn beryglus, gan beri nad oedd atyniad mewn lwfansau hyfforddiant a chyflogau ieuenctid yr economi ffurfiol. Nid oedd y mwyafrif, serch hynny, wedi ymwrthod yn llwyr â strwythurau ffurfiol hyfforddiant a chyflogaeth, er eu bod at ei gilydd yn ddibris o lefel y lwfans ac o ansawdd yr hyfforddiant fel y synient amdano. Gwahaniaethodd astudiaeth De Morgannwg rhwng y bobl ifanc hynny (y mwyafrif) a gynrychiolai *bosibiliadau polisi* a'r rhai a oedd yn *broblemau polisi*. Nid oedd y grwp cyntaf wedi ymwrthod â'r hyfforddiant a ddarperid, er bod ganddynt syniadau clir – a gwahanol –am yr hyn a fyddai'n dderbyniol ganddynt, a gallai ymyrraeth strategol rywbryd, er nad ar unwaith (am fod ganddynt flaenoriaethau taerach yn eu bywydau), fod wedi eu cynorthwyo i ail-afael. Nid oedd yr ail grwp yn bendant, am wahanol resymau unwaith eto, am gael eu tynnu i mewn i'r rhaglenni hyfforddiant a oedd ar gael: un ai am eu bod yn feirniadol iawn o'u hansawdd neu am fod ganddynt 'well' pethau (a dalai'n well hefyd) i'w gwneud.

Cafodd adroddiad De Morgannwg gryn sylw, er na ddaeth hwb i faterion 'anfodlonrwydd', eithrio a diffyg cyfranogiad nes cael adroddiad ar yr ymchwil a chefnogaeth iddi ar dudalennau'r *Independent.* Ar y cychwyn condemniwyd yr ymchwil ar lefel leol a chenedlaethol gan wleidyddion a chan y gweithwyr proffesiynol a oedd yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau addysg, hyfforddiant a chyfarwyddyd i bobl ifanc. Dadleuodd y gwleidyddion mai Prydain oedd yr unig wlad yn Ewrop lle'r oedd gwarant hyfforddiant ieuenctid: os oedd pobl ifanc yn dewis peidio â'i derbyn, mater iddynt hwy oedd hynny. Roedd gweithwyr proffesiynol yn amheus o'r dybiaeth fod pob un o'r rhai 'coll' yn status zer0: roedd llawer ohonynt, meddent, yn ôl pob tebyg yn gweithio mewn

rhyw ffordd neu'i gilydd. Diau fod hyn yn wir (er yn ddamcaniaethol braidd), eithr dadl yr ymchwilwyr oedd bod hyn yn gofyn diffiniad hyblyg iawn o *gyflogaeth*, am fod y gwaith y cyfeiriwyd ato yn ddieithriad yn waith dros dro am 'arian ar law' a heb fod yn atebol i reoliadau iechyd a diogelwch ac eraill – onid yn gwbl anghyfreithlon. Bu ymateb hallt hefyd i'r ieithwedd. Rhoddwyd 'status A' yn lle 'status 0' ar fyrder yn yr adroddiad cyhoeddedig, gan fod rhai uwch weithwyr proffesiynol o leiaf yn barnu bod yr ail ymadrodd yn annerbyniol gan ddal ei fod yn creu delwedd wael o bobl ifanc ac yn gysyniad negyddol a theimladwy. Eto nid oedd ar y dechrau ond yn ddarlun technegol, hwylus o *statws* pobl ifanc a oedd heb fod mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth, i'w gymharu â'i gyferbynnu â statws rhai mewn addysg (status 1), hyfforddiant (status 2) a chyflogaeth (status 3). Dim ond yn ddiweddarach y teimlid y gallai 'status zer0' weithredu'n drosiad priodol am bobl ifanc nad oeddynt i bob ymddangosiad yn cyfrif dim nac yn mynd i unman.

Y dechneg arall a ddefnyddid i wrthod canlyniadau astudiaeth De Morgannwg oedd nad oedd ond yn astudiaeth leol, a oedd o bosibl yn ddaearyddol annodweddiadol. Cydnabu'r ymchwilwyr y posibilrwydd hwn, ond tynnwyd sylw at yr ystod o leoliadau cymdeithasegol-economaidd yn y sir (o ganol y ddinas ac ystadau tai cyngor yr ymylon i gefn gwlad) ac at y ffaith fod De Morgannwg yn tueddu i fod tua hanner ffordd yn yr ystadegau cenedlaethol gyda golwg ar nifer o feini prawf perthnasol (megis lefelau diweithdra a pherfformiad ysgolion). Er nad oedd sicrwydd y gellid cymhwyso canlyniadau astudiaeth De Morgannwg at fannau eraill, felly, roedd cryn hyder y gallai fod perthnasedd a defnyddioldeb i'w chasgliadau mewn cyd-destunau eraill (hyder a wireddwyd maes o law).

Yn sicr, cadarnhawyd yr amcangyfrifon *rhifol* a godwyd o astudiaeth De Morgannwg mewn modd pendant. Oddi ar 1993, bu nifer o astudiaethau 'status zer0'. Canolbwyntiodd y rhain ar ardaloedd daearyddol amrywiol gyda gwahanol fathau o boblogaeth. Mae'n wedi defnyddio adnoddau amrywiol, wedi mabwysiadu amrediad o ddulliau, wedi dosbarthu pobl sydd heb gyfranogi mewn amrywiaeth o ffyrdd ac wedi dod i gasgliadau ystadegol gwahanol. Ond nid yw'r un wedi tanseilio canlyniadau dangosol astudiaeth De Morgannwg o ddifrif ac mae'r rhain wedi tueddu i'w hategu.

O ran gwaith goleuol, *ansoddol* astudiaeth De Morgannwg, cafwyd canlyniadau gwahanol braidd mewn astudiaethau dilynol. Yn benodol, awgrymodd astudiaeth o Forgannwg Ganol a wnaed gan rai o dîm ymchwil wreiddiol De Morgannwg (Istance a Williamson 1996) nad oedd pobl ifanc status zer0 o reidrwydd yn 'dioddef' effeithiau amgylchiadau patholegol. Ym Morgannwg Ganol (lle roedd yr amcangyfrifon rhifol, gyda llaw, yn ymylu ar 25%), bu ei hanes gwleidyddol a diwylliannol penodol, ynghyd â'i sefyllfa economaidd drychinebus ar hyn o bryd, yn fodd i egluro pam yr oedd llawer o bobl ifanc 'gyffredin', hyd yn oed os oeddynt yn tangyflawni, heb fod mewn addysg na hyfforddiant na swydd. Roedd rhaglenni hyfforddi, yng ngolwg y bobl ifanc a'u rhieni *hefyd*, yn amherthnasol pan nad oedd swyddi neu swyddi heb angen ond ychydig hyfforddiant ar eu cyfer. O ganlyniad, roedd cymunedau (a theuluoedd estynedig yn fwyaf arbennig) yn *cefnogi* pobl ifanc nad oeddynt yn cyfranogi. Bu hyn, ynghyd â digonedd o gyfleoedd yn y farchnad lafur anffurfiol, yn fodd i wneud peidio â chyfranogi yn ddewis gweddol atyniadol a dilys i'r bobl ifanc hyn a fyddai, ar gyfrif eu cyflawniad addysgol gwael, yn dal heb fod yn gystadleuol yn y farchnad lafur ffurfiol, ni waeth am unrhyw hyfforddiant a wneir ganddynt. Ychydig o bwysau oedd arnynt i gymryd rhan mewn hyfforddiant o'r fath: credai rhieni a'r gymuned mai 'caethwasanaeth' oedd y rhaglenni hyfforddiant 'newydd' nad oeddynt yn dod â swyddi yn eu sgil. Gwyddai'r bobl ifanc yn eu tro fod eu dyfodol economaidd a galwedigaethol yn ddiobaith, ond bod y presennol yn weddol dderbyniol, a'u bod am wneud yn fawr ohono. Mae hyn yn gwbl groes i bobl ifanc De Morgannwg, a gâi anawsterau mawr ar y pryd ond a oedd yn ffyddiog y byddai'r dyfodol yn loywach wedi iddynt oresgyn anawsterau'r presennol. Nid

oedd y naill na'r llall o reidrwydd yn wrthrychol wir, eithr dyma'r barnau goddrychol a gyfrannai at eu penderfyniadau o ddydd i ddydd.

Er bod 'status zer0' yn ymadrodd dadleuol ar y cychwyn, hydreiddiodd y dychymyg gwleidyddol o dipyn i beth. Roedd yn well gan rai o swyddogion y llywodraeth synio am y bobl ifanc hyn heb fod mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth fel NEET (Not in Education, Employment or Training): roedd tinc llai problemus iddo. Eithr cryn her oedd y cysyniad o 'status zer0' i effeithlonedd polisïau hyfforddiant llywodraeth a oedd, yn 1996, yn dal i ddathlu'r cynnydd dramatig yn nifer y rhai a oedd yn aros ymlaen mewn addysg 16+ a llwyddiant ymddangosiadol o gyplysu cyflawniad galwedigaethol â'r trefniadau nawdd ar gyfer hyfforddi ieuenctid. Ymddangosai fod yr hyn a weithiai'n dda i'r mwyafrif o bobl ifanc yn methu gyda lleiafrif sylweddol yr un pryd. Roedd tystiolaeth bellach yn nhwf y gwaharddiadau parhaol o'r ysgolion ac yn yr hanes hir o fethiant a gofnodwyd yn Adroddiad Dearing fod mwy na gweddillion o bobl ifanc ar yr ymylon.

Wrth i gydnabyddiaeth wleidyddol gynyddu bod corff sylweddol o bobl ifanc 'anfodlon', trowyd i archwilio natur yr anfodlonrwydd yn fanylach (ei achosion a'i ganlyniadau) a hefyd i ystyried ymatebion priodol o ran polisi.

Mae'n eglur nad yw'r 'rhai anfodlon' (fel y daethpwyd i alw pobl ifanc wedi'u *datgysylltu* o brif ffrwd addysg a hyfforddiant) yn grwp unffurf o bell ffordd. Term dadleuol yw 'anfodlon' yntau, gan ei fod yn ensynio agwedd wael ar ran pobl ifanc, er bod y rhan fwyaf o dystiolaeth ansoddol ar eithrio a diffyg cyfranogiad yn awgrymu mai cyfuniad cymhleth o benderfyniadau sefydliadol ac unigol sy'n arwain at 'anfodlonrwydd' hunan ddywededig. Ar ben hynny, wrth i'r dystiolaeth gynyddu, felly hefyd y gellir adnabod ffrydiau cymdeithasol, seicolegol a marchnad lafur yn gliriach. Rhoddir llai o sylw erbyn hyn i geisio amcangyfrifon manwl o'r *niferoedd* o bobl ifanc y gellir eu hystyried yn anfodlon (gan fod hyn bron yn amhosibl ac yn ddibynnol iawn ar y meini prawf a ddefnyddir) a mwy o ymdrech i bennu *dimensiwn* yr anfodlonrwydd, yn nhermau achosion gwaelodol a chymhellol ac yn nhermau'r meini prawf personol a strwythurol. Cafwyd cydnabyddiaeth gadarn yn adroddiad Pwyllgor Dethol Ty'r Cyffredin yn 1998 ar *Disaffected Children* (Pwyllgor Addysg 1998), a seiliwyd ar y dystiolaeth gyfredol am bobl anfodlon 14 i 19 oed o faint y diffyg cyfranogiad mewn addysg a hyfforddiant ac o'r materion perthynol. Er iddo awgrymu bod yr ystadegau swyddogol annibynadwy dros ben ac y gall amcangyfrifon rhifol amrywio o 100,000 i 200,000, edrychodd ar anfodlonrwydd ac ar ei ffactorau achosol fel her fawr i bolisi cyhoeddus, a fynnai fwy o gydlyniad a chydweithrediad rhwng asiantaethau ar lefel leol.

Mae'r rheswm pam y pleidiodd y Pwyllgor 'fforymau lleol' i gydlynu ymateb strategol i anfodlonrwydd yn rhan o gymhlethdod y pwnc. Ni ellir priodoli 'anfodlonrwydd' yn syml i broblemau seicolegol, cyd-destunau cymdeithasol neu i flaenoriaethau'r farchnad lafur; mae a wnelo â'r tri peth hyn yn llawer rhy aml. Nododd y Pwyllgor Dethol fod diwylliannau diweithdra, ansefydlogrwydd teuluol, meddylfryd cyfoedion ac anableddau dysgu a phroblemau meddygol (heb eu hadnabod yn aml) ymhlith yr achosion gwaelodol. Ymhlith yr achosion cymhellol oedd hiliaeth a bwlio mewn ysgolion, pwysau'r tablau cyrhaeddiad ar ysgolion i gyflawni graddau uwch na C mewn TGAU, cysyniadau pobl ifanc am brinder cyfle yn y farchnad lafur, gofynion a blaenoriaethau yn cystadlu am sylw pobl ifanc, ac effaith diwylliannau camddefnyddio cyffuriau a throseddu.

Ffordd ddefnyddiol o synio am 'anfodlonrwydd' a gwneud synnwyr ohono yw lleoli pobl ifanc anfodlon o fewn teipolegau cymdeithasol/personol, seicolegol a marchnad lafur. Gall fod gorgyffwrdd rhyngddynt, wrth gwrs, O safbwynt cymdeithasol, bydd rhai pobl ifanc bob amser yn gorfforol bresennol mewn addysg a hyfforddiant ond wedi'u datgysylltu o brosesau dysgu: o fewn y system, ond y tu allan i ddysgu. (Y rhain fydd y rhai mwyaf anodd eu *hadnabod* efallai). Bydd eraill wedi diflannu o'r system, ond heb

greu mater polisi cyhoeddus ehangach, am y byddant yn pydru gartref, o flaen y teledu, fideo neu beiriant gemau, wedi'u cuddio gan eu teuluoedd. Y rhain fydd y rhai mwyaf anodd eu *darganfod* efallai). Dwy garfan arall sy'n creu her fwy i bolisi cyhoeddus ehangach. Sef rhai a ddaliwyd gan y diwylliannau diod a chyffuriau (am amryw byd o resymau), sy'n mynychu mannau cyhoeddus gan greu problemau trefn gyhoeddus yn aml. Ac yn olaf mae rhai sy'n ymwneud â gweithgareddau economaidd anffurfiol ac anghyfreithlon, gan feithrin dulliau o 'ddod â dau ben llinyn ynghyd'. Ni ddylid rhamantu hyn. Heb sôn am ganlyniadau cymdeithasol ymddygiad o'r fath, yn aml nid yw ond yn ateb byr-dymor, sy'n annhebygol o fod yn rhywbeth dymunol na dichonadwy ar ôl mynd yn oedolyn.

Mae seicolegwyr wedi pennu dosbarthiadau iechyd meddwl i gyfleu'r 'rhai anfodlon'. Mae'r rhain yn adleisio elfennau o'r dosbarthiad cymdeithasol a grybwyllwyd uchod, ond maent o ansawdd wahanol. Yn gyntaf, mae pobl ifanc sydd, am amryw byd o resymau, yn wedi'u gwahardd yn bersonol o systemau addysg a hyfforddiant ffurfiol: mae'r rhain yn amherthnasol iddynt ar hyn o bryd ac i'w dyfodol personol; mae gan bobl ifanc o'r fath flaenoriaethau amgen (megis gofalu am berthnasau, neu helpu gyda busnes y teulu). Yn ail, mae rhai sy'n ymddwyn mewn modd anghymdeithasol mewn sefyllfaoedd ffurfiol (a all arwain at waharddiad) ond sydd yn tynnu ymlaen yn dda gyda'u teuluoedd, eu cyfoedion a'u cymunedau. Hynny yw, mae ymddygiad a ystyrir yn annerbyniol mewn sefyllfaoedd ffurfiol yn normal a derbyniol yn y byd y tu allan. Yn drydydd, mae rhai sydd ag 'ymddygiad afreolus' oherwydd hanes personol camweithredol dwfn (megis camdriniaeth yn blentyn) nad yw bob amser wedi cael ei ddarganfod a'i ddehongli. Yn bedwerydd, mae'r bobl ifanc ag 'emosiynau afreolus', y mae eu hymddygiad a'u syniadau'n orffwyll oherwydd iselder ysbryd, straen neu bryder.

Awgrymodd yr astudiaeth 'status zer0' yng Ngogledd Iwerddon (Armstrong et al 1996) y gellid lleoli pobl ifanc ar hyd continuwm o ran eu hymwneud â'r farchnad lafur. Gan dynnu ar 'Deipoleg Profiadau' dadleua y gellir lleoli ar un o saith pwynt ar rychwant rhwng gwaith (neu hyfforddiant) a dim gwaith:

1. Status OK – wedi gadael cwrs hyfforddiant a chael gwaith neu'n cymryd rhan mewn cwrs hyfforddiant *mewn modd pwrpasol* (fy mhwyslais i)

2. Status '0 Active' – heb fod mewn hyfforddiant neu swydd ond yn chwilio am waith mewn modd gweithredol

3. Status 'Limb'0' – wedi ymgofrestru ag asiantaeth hyfforddi ond heb dderbyn hyfforddiant

4. Status 'Y0-Y0' – patrwm o ddychwelyd i waith neu hyfforddiant, neu ymadael ag ef, ar ôl cyfnod byr

5. Status Vulnerable – dibyniaeth drom ar ddarpariaeth hyfforddiant cymunedol; heb drosglwyddo i waith yn llwyddiannus

6. Status '0 Inactive' – heb fod mewn hyfforddiant na swydd a heb chwilio

7. Status 0n Hold – wedi derbyn hyfforddiant ond ar hyn o bryd yn y ddalfa

(Ffynhonnell: astudiaeth 'status zer0' Gogledd Iwerddon)

Mae darlun cymhleth yma, felly, o natur 'anfodlonrwydd' ac o'r berthynas rhwng pobl 'anfodlon' â'r marchnadoedd hyfforddiant a llafur. Mae'n bwysig cofio, serch hynny, fod

rhywfaint o ddiffyg cyfranogi wedi bod erioed, yn enwedig mewn darpariaeth hyfforddiant ar ôl 16 byth ers pan ddaeth hon yn rhyw fath o 'opsiwn' yn y brif ffrwd yn 1979. Yn wir, awgrymodd Youthaid fod un o bob deg o bobl ifanc a oedd yn gymwys i'r YTS wedi dewis peidio â chymryd rhan ynddo erbyn canol yr 1980au (Horton 1985). Wrth gwrs, roedd diweithdra gyda budd-daliadau'n agored iddynt bryd hynny, a ddilewyd wedyn. Ond hyd yn oed ar ôl dileu hawl pobl ifanc 16 a 17 oed i dderbyn budd-daliadau, amcangyfrifodd y Cyngor Ieuenctid Prydeinig fod rhyw 30,000 o bobl ifanc yn 'pleidleisio gyda'u traed' bob blwyddyn gan ddewis peidio â derbyn yr hyfforddiant a ddarparwyd ar eu cyfer (Cyngor Ieuenctid Prydeinig 1992). Cadarnhawyd y lefel hon mewn dadansoddiad diweddar gan y Youth Cohort Study, wedi'i seilio ar astudiaeth hydredol o bawb a aned yn ystod un wythnos yn 1970. Is-deitl ei adroddiad (Bynner et al 1997) oedd *Getting On, Getting By, Getting Nowhere* a thynnodd sylw at begynnu cynyddol, gyda lleiafrif sylweddol 'heb gyrraedd unman'. Yn ddiddorol iawn, sylwodd fod 'unman' yn lle anos i fod ynddo: heb fudd-daliadau, ac yn arwain at ragolygon gwaethwaeth am drawsnewid yn y dyfodol. Felly'r angen taer am ymateb polisi mwy effeithiol i'r rheini sy'n tynnu allan neu'n cael eu gwahardd o'r prif lwybrau tuag at drawsnewid trwy addysg a hyfforddiant.

Hyd yn oed cyn i Lafur ddod i rym ym Mai 1997 a sefydlu'r Uned Eithrio Cymdeithasol yng nghraidd y llywodraeth (a gyhoeddodd ei hadroddiad cyntaf ar driwanta a gwahardd), roedd y llywodraeth Geidwadol wedi cyhoeddi mentrau peilot i ymdrin ag 'anfodlonrwydd' dan y rhaglen Ail-lawnsio yn Lloegr a'r Fenter Mynediad Ieuenctid yng Nghymru. Dan y rhain cynigiwyd adnoddau ychwanegol i geisiadau gan bartneriaethau lleol (yn cynnwys, er enghraifft, Cynghori Hyfforddi a Menter, awdurdodau lleol, gwasanaethau gyrfaoedd a'r sector gwirfoddol) i ddatblygu strategaethau dyfeisgar ar gyfer cynnal integreiddio pobl ifanc mewn perygl o ddod yn 'anfodlon' ac ailintegreiddio rhai a oedd eisoes yn 'anfodlon'. Cyhoeddwyd cyfran newydd o gyllid Dechreuad Newydd yn gynnar yn 1999.

'Partneriaeth' yw un o'r geiriau amwys hynny (fel 'cymuned' a 'menter') nad oes modd ei ddiffinio'n fanwl ond sy'n ymddangos bob amser yn hynod atyniadol. Mae'n anodd dadlau *yn erbyn* partneriaeth. Ond beth bynnag fo'u rhinweddau, mae hierarchiaethau cudd a myrdd o densiynau anochel mewn partneriaethau. Nid y lleiaf o'r rhain yw bod y gwahanol asiantaethau'n gweithio ar sail blaenoriaethau gwahanol a rhaglenni gwaith ar wahân, hyd yn oed os ydynt *i gyd* yn ymwybodol o'r gorgyffwrdd yn eu 'cleientau' targed ac o fuddiannau ymyriad effeithiol i bawb. Haws bob amser. Wrth gwrs yw nodi rhesymau dros *beidio â* chydweithio, hyd yn oed pan fyddai pawb yn cytuno bod rheswm *prima facie* dros wneud hynny. Ar ben hynny, mae etifeddiaeth hanesyddol ynghlwm â'r peth: sefydlodd y llywodraeth flaenorol beirianwaith cyllido ar sail maint y ddarpariaeth, a aeth yn groes i bartneriaeth rhwng asiantaethau, am ei fod yn seiliedig ar ffiniau pendant. Mae'r llywodraeth newydd wedi ceisio atal y fath weithredu unigol a chystadleuaeth ofer gan annog agwedd bartneriaeth tuag at ddarparu amrediad o fentrau mewn addysg a hyfforddiant, megis Parthau Gweithredu addysgol a lluosogrwydd y 'Bargeinion Newydd'. Mae hi wedi annog y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i gyd-dynnu a chydweithio er mwyn gwella cyfranogiad a chodi safonau. Ond mae llawer o'r hen beirianwaith cyllido'n parhau, gan ei gwneud yn anodd gweithredu fel partneriaeth o hyd y tu allan i'r cyllido penodol ac arbrofol yn aml sydd ar gael trwy ddulliau o'r fath (megis y Fenter Mynediad Ieuenctid).

Yna mae mater y swyddogaethau a ddylai fod gan bob partner. Soniwyd eisoes am y syniadau damcaniaethol ar ddatblygu dull stategol ar gwestiwn 'anfodlonrwydd', gan gynnwys sylw i anghenion personol, cymdeithasol a galwedigaethol pobl ifanc 'anfodlon' (Williamson et al 1997). Golyga hyn fod yn ymwybodol y gall fod gan brosiectau cymunedol swyddogaeth allweddol wrth sefydlu cysylltiad â phobl ifanc a meithrin eu hyder, cyn eu 'cyfeirio' ymlaen at gyfarwyddyd a chymorth mwy arbenigol. Mae gallu (a

chymhelliad) prosiectau o'r fath i gymryd rhan mewn 'trosglwyddiad' effeithiol yn fater hanfodol pwysig wrth weithredu i ymateb i 'anfodlonrwydd'. Mae prosiectau ar y maes yn honni'n aml fod ganddynt berthynas arbennig a breiniol gyda phobl ifanc sydd mewn perygl o 'anfodlonrwydd' (honiad na ddadleuir ag ef yn fynych gan rai eraill yn y gadwyn, megis colegau addysg bellach, gwasanaethau gyrfaoedd, Cynghorau Hyfforddi a Menter, y Gwasanaeth Cyflogaeth, a darparwyr hyfforddiant). Er hynny, maent yn aml yn ymuniaethu â meddylfryd y bobl ifanc hynny (yn enwedig eu pryder a'u drwgdybiaeth o gymryd rhan mewn hyfforddiant) gan osgoi wynebu'r cyfrifoldeb, lle bynnag a phryd bynnag y gellir, o symud pobl ifanc ymlaen, gan ddal yn hytrach fod eu darpariaeth hwy'n ddigonol. Agwedd naïf yw hon: (ychydig iawn) o bobl anfodlon a gaiff y cyfle i chwarae gitarau neu wneud fideos am byth, hyd yn oed os yw hwn yn gam cyntaf o bwys mewn dangos hyder a meithrin cymhelliad. Mewn gwirionedd, cydsynio â'r gwaharddiad sydd arnynt yw osgoi neu anwybyddu cyfleoedd i symud y bobl ifanc hyn ymlaen. Wynebodd y Pwyllgor Dethol ar Addysg a Hyfforddiant y caswir pan ddaliodd ei bod yn hollbwysig cadw pob person ifanc *mor agos â phosibl* i ddysgu (a hyfforddiant). Rhybuddiodd hefyd rhag cymwysterau di-werth, wedi'u cynllunio i gydnabod cyflawniadau 'o gam i gam' a oedd yn gwbl-ddiwerth yn y farchnad waith. Pan ddaw hynny'n eglur i'r rhai sydd yn eu derbyn mae'n fwy tebygol o wneud anfodlonrwydd yn waeth, yn hytrach na'i wella.

Rhaid cyfaddawdu, felly, os yw partneriaethau rhwng asiantaethau gydag athrawiaethau ac arferion gwahanol iawn i'w gilydd i lwyddo i daclo anfodlonrwydd. Rhaid i'r asiantaethau hynny sy'n pryderu ac yn meddwl yn bennaf am *ganlyniadau* gydnabod bod gwaith sy'n ymwneud â *phroses* yn baratoad angenrheidiol, yn wir yn rhagamod yn aml, ar gyfer ymgymryd â hyfforddiant mwy ffurfiol mewn modd *pwrpasol.* Ar y llaw arall, rhaid i asiantaethau sy'n fwy tueddol o synio am brosesau fod yn ymwybodol na fydd pobl ifanc ar yr ymylon ond yn dod yn gystadleuol yn y farchnad lafur ehangach os cânt fynediad i gymwysterau achrededig sydd o werth yn y farchnad honno. Mae rhoi cydnabyddiaeth unigol i gyflawniad personol a chymdeithasol yn dal yn bwysig o safbwynt ennyn hyder (cyhyd a rhoddir ei gwerth gyfiawn iddi) ac o safbwynt paratoi pobl ifanc i ystyried ailgydio mewn gweithgaredd yn y brif ffrwd – ond y gweithgaredd prif ffrwd a ddylai fod yn nod yn y pen draw.

**Ôl-nodyn - Mehefin1999**

Erbyn Mehefin 1999, roedd mwy fyth o waith systemataidd wedi cael ei wneud gan wahanol sefydliadau ar faint a natur 'anfodlonrwydd' ymhlith ieuenctid. Cyhoeddodd y sefydliad Ymchwil ar Bolisi Cyhoeddus *Wasted Youth* (Pearce and Hillman 1998), yn dwyn yr is-deitl 'combating exclusion and tackling underachievement'. Dadleuwyd dros gynnig cwricwlaidd mwy hyblyg i bobl ifanc rhwng 14 a 19. Yn fwy diweddar, bu adroddiad gan DEMOS yn fwy radicalaidd (Bentley and Gurmurthy 1999). Pleidia achos nifer o lwybrau dysgu, pob un yn cychwyn yn bedair ar ddeg oed ac yn "parhau am o leiaf bum mlynedd", lle yr enillid cymwysterau trwy wahanol gyfuniadau o weithgarwch a phrofiad. Mae adroddiad DEMOS yn asesu maint y bobl ifanc 16 i 24 oed 'heb fod ar y gofrestr', gan gasglu bod un o bob deg yn yr ystod oedran hwn yn y categori yma. Cynrychiola hyn nifer gyfatebol i'r rhai sydd yn hawlio budd-daliadau'n ymwneud â diweithdra: sef rhyw 624,000 o bobl. Fe'u dosberthir fel a ganlyn:

- Rhai un ar bymtheg i ddwy ar bymtheg oed: rhai mewn 'status zer0' (21% o'r grwp heb fod ar y gofrestr)
- Mamau a chynhalwyr (55% o'r holl grwp 18-24)
- y rhai 'coll' (13% o'r holl grwp)
-

- 'dysgwyr ymylol' – rhai sy'n astudio'n rhan-amser ac/neu'n cyfuno astudio â chyfrifoldebau gofal (6% o'r holl grwp)

Mae gwaith cyfatebol wedi bod mewn ymchwiliad manwl gan yr Uned Eithrio Cymdeithasol i bobl 16 a 17 oed heb fod mewn addysg, hyfforddiant na gwaith (pobl ifanc NEET). Disgwylir yr adroddiad hwnnw yn Hydref 1999.

Yr hyn nad yw'n eglur, er hynny, yw'r gwahaniaeth ymhlith y rhai 'anfodlon' rhwng y rhai "ar gyfeiliorn dros dro, wedi drysu ac wedi cilio'n llwyr" (Williamson a Middlemiss 1999). Penderfyniad anodd fydd hyn, ond bydd yn angenrheidiol rywbryd os yw ymyriadau i fod yn briodol o ran dwyster a hyd. O leiaf y cydnabyddir erbyn hyn fod y term 'anfodlonrwydd' yn amhriodol fel ymadrodd hollgynhwysol i ddisgrifio'r bobl ifanc hynny sydd wedi'u datgysylltu o'r prif lwybrau trawsnewid i fod yn oedolion. 'Datgysylltiad' sydd fwyaf addas, yn yr ystyr ei fod yn cyfleu canlyniadau rhai o'r *gweithrediadau* gan sefydliadau ac unigolion, boed yn fwriadol neu beidio. Nid yw'n rhoi bai ba gyfrifoldeb ar neb. Mae nifer o gynlluniau a strategaethau'n cael eu hystyried a'u gweithredu ar hyn o bryd er mwyn cynnal 'cysylltiad' a hybu ail-gysylltiad'. Bydd rhai pobl ifanc yn fwy agored i'r rhain na'i gilydd.

**CYFEIRIADAU**

Armstrong, D., Scott, B., Loudon, R., McCready, S. and Wilson, D. (1996), Status 0 – young people not in education, training or employment in Northern Ireland, *Belfast: Northern Ireland Economic Research Centre*

Bentley, T. and Gurumurthy, R. (1999), *Destinations Unknown: Engaging with the problems of marginalised youth*, London: DEMOS

British Youth Council (1992), *The Time of Your Life? The truth about being young in 90s Britain*, London: British Youth Council

Bynner, J., Ferri, E. and Shepherd, P. (1997), *Twenty-something in the 1990s: getting on, getting by, getting nowhere,* Aldershot: Ashgate

Education Committee (1998), *Disaffected Children*, London: The Stationery Office

Horton, C. (1985) *Nothing like a job: a survey of unemployed school leavers (1983-84) who could have gone on the Youth Training Scheme but did not*, London: Youthaid

Istance, D., Rees, G and Williamson, H. (1994), *Young People not in education, training and employment in South Glamorgan*, Cardiff: South Glamorgan Training and Enterprise Council

Istance, D. and Williamson, H. (1996), *16 and 17 year olds not in education, training or employment (status 0)*, Treforest: Mid Glamorgan Training and Enterprise Council

Pearce, N. and Hillman, J. (1998), *Wasted Youth*, London: Institute for Public Policy Research.

Williamson, H. with Kealy, L, Hall, T., Catherine, A., Self, R. and Wood, F. (1997), *Strategic Partnerships in the Development of Responses to 'Disaffected' Youth*, Cardiff: School of Social and Administrative Studies

Williamson, H. and Middlemiss, R. (1999), 'The Emperor has no clothes: Cycles of delusion in community interventions with 'disaffected' young men', *Youth and Policy* 63 pp.13-25

•